
PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PWLLHELI
11-10-11

Yn Bresennol: Mr David Dewsbury (Cadeirydd)

Y Cyngorwyr Robert J. Wright ac Ioan Thomas (Cyngor Gwynedd), Cyngorydd M. Sol Owen (Cyngor Tref Pwllheli), Brian Edmonds (Cymdeithas Cychod Hafan Pwllheli), John Morris, W.A. Partington, Robert Riddell (Cymdeithas Masnachwyr Morwrol), Andrew Picken, (Siambwr Fasnach Pwllheli) a Stephen Tudor (Clwb Hwyllo Pwllheli).

Hefyd yn bresennol: Barry Davies (Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig), Wil Williams, (Rheolwr Hafan Pwllheli), Huw Davies, (Prif Beiriannydd), Llyr B. Jones (Uwch Reolwr Economi a Chymuned) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Pwyllgor)

Ymddiheuriadau: Y Cyngorwyr Peter Read, Sion Roberts

1. CADEIRYDD

PENDERFYNWYD ethol Mr David Dewsbury yn Gadeirydd y Pwyllgor am 2011/12.

2. IS-GADEIRYDD

PENDERFYNWYD ethol Mr Stephen Tudor yn Is-gadeirydd y Pwyllgor am 2011/12.

3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Ymgynghorol a gynhaliwyd ar 29 Mawrth, 2011, fel rhai cywir.

Nododd aelod nad oedd cyfeiriad yn y cofnodion at fater a godwyd ynglyn ag adolygiad o drefniadau rheolaeth yr harbwr. Mewn ymateb, hysbysodd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned bod yna gyfeiriad yn y cofnodion at waith o ran adnabod yr opsiynau tymor hir a fyddai'n digwydd yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol.

5. ADRODDIAD Y GWASANAETH MORWROL

Cyfeiriodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig at newid ffurf yr adroddiad o'i gymharu ac adroddiadau'r gorffennol. Yn hanesyddol fe gyflwynwyd adroddiadau ysgrifenedig manwl i sylw'r pwyllgor gyda manylion llawn am y gwahanol faterion. Y tro hwn nid oedd yn bosibl gwneud hynny oherwydd nifer fawr o ffactorau sy'n ymwneud â diffyg capasiti sydd gan yr uned i gyflwyno'r adroddiadau hyn. Nododd na leihawyd y manylion a gynhwysir yn yr adroddiadau. 'Roedd yn bwysig bod lefelau'r gwasanaeth ar draws y sir yn parhau.

Cyflwynodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ei adroddiad gyda sylw penodol yn cael ei roi i'r materion canlynol:

- Mordwyo ac Angorfeydd
- Carthu
- Cyllidebau Harbyrau
- Digwyddiadau

- Academi Hwyllo
- Ystadegau Morwrol
- Staff Harbwr
- Diogelwch Offer Morol

Mordwyo ac Angorfeydd

O safbwynt y cymhorthion mordwyo, hysbysodd y swyddog yr ymgwymerwyd â llawer o newidiadau gyda'r rhain tros y blynyddoedd oherwydd bod y sianel erbyn hyn wedi culhau a newid cyfeiriad. Gosodwyd tri bwi port parhaol gyda goleuadau arnynt yng ngheg yr harbwr a gosodwyd bwiau starbord ychwanegol o fewn y sianel gyferbyn â swyddfa'r harbwrfeistr. Bwriedir adolygu gwerth a budd y cymhorthion mordwyo sydd ar y wal hyfforddiant.

Nododd y cynhelir trafodaethau gyda Dŵr Cymru ynglyn â'r cymhorthydd parthed y bibell sy'n arllwys carthion i'r harbwr ar adegau o law trwm oherwydd bod y bibell ar hyn o bryd dan oddeutu 4 metr o dywod. Rhoddir pwysau ar Dŵr Cymru i'w thynnu neu atgyweirio'r cymhorthydd mordwyo.

Hysbysodd bod y bwiau parth traethau wedi gweithio'n well eleni ac i'r cychod gydymffurfio'n gyffredinol â rheolau'r bae bychan yn Abererch.

O safbwynt cynnal a chadw angorfeydd, hysbysodd y swyddog yr ymgwymerwyd â'r gwaith yn ystod Mawrth ac Ebrill ac 'roedd y gost o'u harchwilio gan dîm proffesiynol oddeutu £3,000. Buddsodwyd £1,400 i symud y pontwns er hwyluso mordwyo yn yr harbwr. Yn gyffredinol, mae costau cynnal a chadw angorfeydd yn yr harbwr yn weddol isel ac yn llai na £1,500 hyd yma eleni. Cafwyd archwiliad gan Dŷ'r Drindod yr wythnos hon a disgwylir am eu hadborth ond ni rhagwelir unrhyw broblem.

Mewn ymateb i ymholiad gan aelod parthed rhoddi polyn ychwanegol ar y wal hyfforddiant, hysbysodd y swyddog y byddai'n fodlon ymchwilio i'r posibilrwydd. Nododd bod mordwyo i fewn i'r harbwr yn weddol hawdd o'i gymharu â rhai o'r harbyrau eraill. Cytunodd i gyflwyno adroddiad ar y mater i'r pwyllgor nesaf.

Carthu

Adroddodd y swyddog ar y gwaith a gwblhawyd i garthu ceg yr harbwr ar ddechrau'r tymor hwyllo oherwydd bod yna gymaint o ddeunyddiau wedi dod i mewn i geg yr harbwr tros fisoedd y gaeaf gyda'r canlyniad bod y sianel wedi culhau'n sylweddol ac yn achosi problemau i gychod fordwyo i mewn ac allan o'r harbwr. Nododd y tynnwyd oddeutu 55,000 tonn o ddeunyddiau o'r harbwr ac fe'i adawyd fel pentwr defnydd i sychu ar dir cyfagos. Pwysleisiodd bod ardal y domen erbyn hyn yn llawn ac nad oes capasiti ar y tir bellach er storio defnydd ychwanegol ar y safle.

Dosbarthodd y swyddog gynllun hydrograffeg o'r harbwr a baratowyd gan y Prif Beiriannydd ym Mai 2011. Nododd mai un o'r cynlluniau yr ystyrir ei weithredu oedd tynnu'r stanciau presennol o fewn y dŵr tyfn. 'Roedd pontŵn ar gyfer angori cychod pysgotwyr a leolwyd eisoes ar y rhes allanol, wedi ei symud ac wedi ei ail-leoli, drwy gytundeb y pysgotwyr, ar res y stanciau mewnol. 'Roedd hynny wedi gwella'r sefyllfa o safbwynt mordwyo cychod.

Adroddodd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned ar y cynlluniau ar gyfer tymor 2012/13. Tynnodd sylw bod oddeutu 40 o angorfeydd yn wag yn yr Hafan ar hyn o bryd. Nododd bod sawl her yn wynebu'r Hafan. Mae'r dirwasgiad economaidd wedi effeithio ar fusnesion, unigolion a sectorau, yn enwedig y sector forwrol. Mae yna gostau o fewn y sectorau sydd hefyd wedi bod yn ffactor tros y flwyddyn ddiwethaf o ran TAW, tanwydd,

cyllidebau credyd ar gael i gwsmeriaid. Nododd yr heriau parthed lefelau siltio yn y sianel a amlygwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Yn ogystal, mae yna faterion yn ymwneud â capasiti'r ardal i ymdrin â'r gwaddod o'r gwaith carthu sydd ei angen o amgylch yr harbwr a'r sianel. Nododd bod yr uned yn awyddus i gwblhau cynllun gweithredu er ymateb i'r heriau hyn a fyddai'n cynnwys nifer o weithredoedd ar gyfer y tymor byr/canolig ac hefyd ar gyfer y tymor hir. O ran dadansoddi'r gwahanol heriau, nododd bod yna ddau prif faes sef carthu a ffioedd lle y rhoddir sylw iddynt ar hyn o bryd. Parthed y gwaith carthu, rhagwelir yr angen i fod yn gwella ar gyfer y tymor nesaf gan ystyried gweithredu pecyn o brosiectau tros y gaeaf er mwyn hwyluso'r trefniadau gyda charthu. O ran y pentwr defnydd (stockpile) sydd yn llawn ar hyn o bryd, bwriedir ei gludo o'r safle yn ystod y gaeaf fel rhan o gynllun i adfer traethau fel Carreg y Defaid yn bennaf a fyddai hefyd yn cyfrannu at waith i atal llifogydd ym Mhwllheli.

Cyfeiriodd y swyddog at brosiect i ymgymryd â gwelliannau i'r sianel i mewn i'r harbwr. a nododd dau brif opsiwn i'w cyflawni erbyn 2012/13. Mae'r opsiwn cyntaf yn ymwneud â thynnu rhai o'r stanciau presennol sy'n agos at ganol y sianel gyda'r bwriad i alluogi dyfnder naturiol i'r sianel gael ei ddefnyddio ar gyfer mordwyo. Byddai hwn yn ran o gynllun ehangach ac edrychir ar drefniant tros dro lle y tynnir y stanciau gan ystyried opsiynau ar gyfer ail-leoli'r angorfeydd y flwyddyn ganlynol. Os ymgwymerir â hyn, byddai'n ofynnol ystyried anghenion y cwsmeriaid presennol a chynnig darpariaeth o fewn yr Hafan ar delerau tebyg i'r presennol.

Nododd y swyddog mai'r ail opsiwn fyddai adeiladu ar y gwaith a wnaed yn Awst 2011 o ran lefelu gwely'r harbwr. 'Roedd ychydig o lwyddiant wedi digwydd yn sgîl y gwaith hwn a'r opsiwn y bwriedir ei ystyried fyddai parhau â'r gwaith hwn ond gyda peiriannau trymach ar gyfer 2012/13. Mae'r rhain yn weithredoedd ar gyfer 2012 a 2013 yn benodol oherwydd oddeutu Medi 2012 rhagwelir y bydd yna beiriannau ac offer carthu addas yn yr harbwr fel rhan o gynllun yr Academi Hwyllo. Rhan arall o'r gwaith y bwriedir ei wneud tros y gaeaf fydd ystyried sut y gellir ymgorffori agweddau ychwanegol o waith carthu. Yn 2013, rhagwelir gwelliannau mwy sylweddol o ran carthu. Mae'r adran yn ymwybodol o'r angen ac yn awyddus i roddi trefniadau mewn lle erbyn dechrau'r tymor nesaf er gwella mordwyo o fewn y sianel.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed ymgymryd â'r gwaith carthu yn ystod y gaeaf gyda gwaith carthu achlysurol wedyn yn ystod y flwyddyn, hysbysodd y swyddog y gellir ystyried hynny. Rhagwelai o ran y peiriannau a ddefnyddiwyd tros yr haf bod yna ychydig o lwyddiant, a bwriedir edrych ar gael peiriannau trymach ar gyfer y tymor nesaf er cael gwell effaith ar lefel gwely'r harbwr.

Mewn ymateb i gwestiwn parthed problemau gyda siltio yn y sianel, hysbysodd y swyddog bod gwyntoedd cryfion y gaeaf diwethaf wedi achosi i'r sianel gulhau yn annisgwyl. Rhagwelai y bydd angen cynllunio hyn i'r rhaglen waith er ymgymryd â'r gwaith carthu'n flynyddol.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod ynglyn a gosod grwyni ar y traeth i gyfeiriad Carreg yr Imbyll a symud y stanciau ochr y gogledd, ger tro yr afon, hysbysodd y swyddog y bydd angen rhoddi sylw i symud y stanciau y flwyddyn nesaf ar gyfer y Cynllun Academi Hwyllo. Parthed y grwyni, addawodd drafod y mater ymhellach gyda'i gyd-swyddogion. Tynnodd y swyddog sylw at Draeth Marian y De lle mae'r llwybrau a grewyd yn y cynllun gwreiddiol erbyn hyn wedi eu gorchuddio â thywod.

Nododd aelod yr awgrymwyd yn strategaeth 2008 y dylid atgyweirio'r grwyni yn ystod blwyddyn ariannol 2008/09 ond ymddengys nad oedd hynny wedi digwydd. Mewn ymateb, hysbysodd y swyddog bod angen blaenoriaethu'r gyllideb ac fe ymgwymerir â'r gwaith pan fydd cyllid digonol ar gael.

Cyfeiriodd aelod at gyfarfod a gynhaliwyd yn Awst 2011 gyda Mr Brian Clark o Ffederasiwn Morwrol Prydain a gofynnodd os y derbyniwyd adborth o'r cyfarfod hwnnw. Mewn ymateb, hysbysodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig iddo fynychu'r cyfarfod hwnnw ac i Mr Clark nodi mai'r person gorau i ymgymryd ag unrhyw strategaeth fyddai Mr Mike Ward, Marina Project. Penodwyd y person hwnnw i gario allan waith ar strategaeth carthu Harbwr Pwllheli. Nododd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned yr ymgwymerir â gwaith cefndirol ar hyn o bryd yn dilyn y cyfarfod yn Awst 2011 ac nid yw wedi ei gyfyngu i faes gwaith yr academi. Nododd bod y maes gwaith wedi ei ymestyn i gynnwys ffiniau'r harbwr ac hefyd yn diweddar/adolygu'r strategaeth garthu. Mae'r trafodaethau hyn felly wedi arwain at waith cychwynnol.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed sicrhau trwydded/hawliau a.y. i wneud gwaith angenrheidiol yn yr harbwr, hysbysodd y swyddog bod angen trwydded gan y corff perthnasol i gynnal digwyddiadau megis Wakestock. Ceisir bod yn hyblyg er mwyn hwyluso i ddigwyddiadau o'r fath gael eu cynnal. Cadarnhawyd na fyddai'r Cyngor yn ceisio am drwyddedau lle na bod angen trwydded.

Cyllidebau Harbyrau

Cyflwynwyd manylion parthed incwm a gwariant Hafan Pwllheli a'r harbwr allanol am 2010/11 ac hyd at ddiwedd Awst 2011.

Nododd y swyddog bod y targed incwm ar gyfer yr Hafan eleni yn £1.6m ac hyd yn hyn fe gyrhaeddwyd £1.3m. Cyfeiriodd at yr angorfeydd gwag yn yr Hafan ac oherwydd hyn, 'roedd angen sicrhau y gellir cyrraedd mor agos â phosibl at y targed incwm. Mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol 2010/11, 'roedd y targed incwm yn £1,562,630 a chyrraeddwyd at £1,569,573 sy'n dangos bod y sefyllfa yr adeg hynny yn well nag ar hyn o bryd yn y flwyddyn ariannol bresennol.

Nododd nad yw'r gwariant yn yr harbwr allanol eleni yn peri pryder ac 'roedd yn hyderus y gwerir llai na'r cyllidebau. Fodd bynnag, datganodd bryder mawr bod yr harbwr ar hyn o bryd (diwedd Awst) £29,000 yn fyr o'r targed incwm ac 'roedd y patrwm hwn hefyd yn bodoli yn yr harbyrau eraill o fewn Gwynedd. Mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol 2010/11, nododd bod yna £16,000 o orwariant yn bodoli a diffyg incwm o £8,400.

Nododd aelod iddo ddeall ar un adeg y byddai staff yr Hafan yn gyfrifol hefyd am redeg gweddill yr harbwr yn ogystal. Mewn ymateb, hysbysodd y swyddog bod Rheolwr yr Hafan sydd hefyd bellach yn Reolwr yr Harbwr yn gallu cydgordio gwaith yn ddyddiol.

Cyfeiriodd aelod at y golled sylweddol yn yr incwm a bod 47 o angorfeydd pontŵn yn wag ar hyn o bryd yn yr Hafan ac y dylid cymryd camau yn ystod y flwyddyn i geisio denu rhagor o gychod i'r harbwr. Mewn ymateb, hysbysodd y swyddog bod yr angorfeydd gwag yn arwydd o ddifrifoldeb y sefyllfa ac yr ymgwymerir â gwaith ar gynllun er mwyn ymateb i hynny.

Gofynnodd aelod a fyddai'n bosibl i gwsmeriaid a darpar gwsmeriaid dderbyn gwybodaeth erbyn 1 Ionawr o nifer yr angorfeydd a fyddai wedi eu llenwi neu beidio yn yr harbwr. Mewn ymateb, hysbysodd y swyddog y rhyddhawyd y wybodaeth llawer rhy hwyr y llynedd a bod y cychwyr eisoes wedi gwneud trefniadau eraill. Nododd na chadarnheid strategaeth ariannol y Cyngor tan ddiwedd Chwefror ac yn byddai hynny'n rhy hwyr, ac y cymerir camau i sicrhau bod ffioedd yr Hafan yn eithriad o'r trefniadau hynny, fel y gellir cadarnhau'r ffioedd os yn bosibl yn Nhachwedd.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod, hysbysodd y swyddog i Reolwr yr Hafan wneud ymholiadau gyda phawb sy'n gadael yr angorfeydd. Nododd nad yw'r nifer a adawodd y llynedd, ar gyfartaledd, ddim gwaeth na'r blynyddoedd blaenorol.

Mewn perthynas â'r ffioedd, hysbysodd y swyddog y rhagwelir y bydd chwyddiant y flwyddyn nesaf oddeutu 4.2%. Rhoddir ystyriaeth ar hyn o bryd i beidio cynyddu ffioedd yr Hafan na'r harbwr allanol y flwyddyn ariannol nesaf.

O safbwynt y craen (hoist) yn yr harbwr, hysbysodd y swyddog bod yna reoliadau sy'n rhaid i'r Cyngor gydymffurfio â hwy a neilltuwyd £180,000 ar gyfer prynu craen newydd i gymryd lle'r un presennol. Disgwylir y bydd y craen newydd yn ei le erbyn haf/hydrif 2012.

Digwyddiadau

Croesawodd y swyddog bod Gŵyl Wakestock wedi dychwelyd i'r ardal gan ddenu miloedd o bobl yn ei sgîl. Nododd bod yna bryder y byddai'r digwyddiad yn symud i'r Faenol ond pwysleiswyd mai Pwllheli fyddai'r lleoliad gorau a disgwylir y byddai'n ôl yno y flwyddyn nesaf.

Diolchodd hefyd i drefnwyr yr Ŵyl Fwyd. Bwriedir cynnal trafodaethau gyda threfnydd yr ŵyl oherwydd y newidiadau fyddai'n digwydd ym Mhenrhyn Glandon yn sgîl yr academi hwyllo er sicrhau y gellir cynnal yr ŵyl tros gyfnod y datblygiad.

Datganodd ei falchder o weld gymaint o gystadlaethau wedi eu trefnu gan Glwb Hwyllo Pwllheli.

Nododd cynrychiolydd y clwb hwyllo, y cafwyd tymor llwyddiannus eto eleni. Cyfeiriodd at y cystadlaethau canlynol a gynhaliwyd -

- a) Cystadleuaeth Optimist UK lle 'roedd 457 yn cymryd rhan yn y cystadleuaeth.
- b) Pencampwriaeth UK Sprint 15 gyda 58 yn cymryd rhan.
- c) Pencampwriaeth 420 UK gyda 48 yn cymryd rhan.

Nododd bod tîm lleol wedi cymryd rhan yn yr "Olympic Test Event" yn Weymouth a disgwylir y bydd tîm o Pwllheli yn cymryd rhan yn y Gemau Olympaidd y flwyddyn nesaf. Ymddangosodd y clwb ar raglen teledu "Hwyllo Pen Llŷn". Y flwyddyn nesaf cynhelir yr "Optimist and Topper Nationals and Finn World Masters" ym Mhwlheli Nododd bod dyddiadau ar gyfer gwahanol gystadlaethau yn y dyddiadur hyd at 2015.

Diolchwyd i'r Clwb Hwyllo am yr holl waith yn denu'r cystadlaethau i Pwllheli.

Cyfeiriodd y swyddog at erthygl a ymddangosodd yn y cylchgrawn " Practical Boat Owner" a oedd yn nodi bod y ffioedd yn Harbwr Pwllheli y drutaf yng Nghymru. Nid oedd hyn yn gywir, oherwydd nad oedd yn adlewyrchiad cywir o'r gwir ffi ac iddo gysylltu â'r unigolyn a ysgrifennodd yr erthygl a disgwylir am ei ymateb.

Cynllun yr Academi Hwyllo

Rhododd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned ddiweddariad am gynllun yr Academi Hwyllo. Nododd y penodwyd erbyn hyn dîm proffesiynol ac yn ystod y misoedd nesaf disgwylir cryn gynnydd yn y datblygiad. Cyfeiriodd at yr agweddau canlynol o'r cynllun sef -

- a) Ail-leoli'r ffordd fynediad i Glandon oherwydd yr angen i greu safle datblygu sydd tu allan i'r ffin llifogydd sy'n cynnig cysylltiad da o ran mynediad i'r traeth ac hefyd ar dir uwch lle mae'r gweledd yn well. Nododd y cymeradwydd y Pwyllgor Cynllunio gais cynllunio i symud y lôn ac i ddatblygu'r wal gei a pharatoir ar hyn o bryd yr agweddau technegol gan benodi contractwyr yn fuan. Rhagwelir y dechreuir gwaith ar y safle yn ystod Rhagfyr 2011 neu Ionawr 2012. Fel rhan o'r gwaith, ymgwymerwyd â gwaith cychwynnol o ran yr agweddau amgylcheddol o edrych ar yr harbwr. Bwriedir penodi ymgynghorwyr arbenigol a fydd yn gyfrifol am baratoi a chyflwyno'r gwahanol geisiadau.
- b) Yr adeilad. Disgwylir y gellir datblygu adeilad arbennig i gyd-fynd â'r weledigaeth o sefydlu Academi Hwyllo Cenedlaethol Cymru ym Mhwlheli. Yn ddiweddar fe

benodwyd tîm o benseiri a fydd yn cyfarfod yr wythnos nesaf. Fel rhan o becyn dylunio manwl yr adeilad, mae yna waith ymgynghori eang wedi ei ymgorffori o fewn y brîff. Bwriedir cynnal arddangosfa gyhoeddus er mwyn dangos y cynlluniau arfaethedig cyn cyflwyno cais cynllunio yn fuan yn y flwyddyn newydd. O ran yr amserlen, fe drafodir hynny ar hyn o bryd, ond y bwriad gwreiddiol oedd bod y gwaith ar yr adeilad i'w ddechrau ym Mehefin 2012 ond efallai y bydd angen ailedrych ar hynny o ystyried bod yna gymaint o bencampwriaethau pwysig yn dod i Pwllheli yn 2012. Cyfeiriodd hefyd at gystadlaethau pwysig y bwriedir eu cynnal yn haf 2013 a byddai'n ddelfrydol petai'r gwaith ar yr adeilad yn cael ei gwblhau cyn hynny. O safwynt yr ochr morwrol, fe ddechreuwyd ar y gwaith rhagbaratoi a rhagwelir y bydd angen paratoi asesiad amgylcheddol ac yna fe baratoir ceisiadau statudol a mynd i dendr parthed penodi contractwyr. Yn ymarferol ni ragwelai y bydd modd dechrau ar y safle cyn Medi 2012.

Ystadegau Morwrol

Mewn perthynas â'r angorfeydd yn yr Hafan, hysbysodd y swyddog bod lleihad yn y niferoedd o gychod sydd ar yr angorfeydd eleni a bod lleihad hefyd yn y nifer o gychod sydd ar ymweliad â'r harbwr. 'Roedd gostyngiad hefyd yn nifer y badau dŵr personol a chychod pŵer a gofrestrwyd a oedd yn deillio'n bennaf o bris tanwydd uchel a'r sefyllfa economaidd ar hyn o bryd. Nododd bod gostyngiad yn gyffredinol yn yr harbryau eraill yn ogystal.

Datganodd aelod bryder parthed y taliadau trydan a godir am angorfeydd yn ystod y gaeaf. Mewn ymateb, hysbysodd y swyddog y bwriedir rhoddi ystyriaeth pellach i'r mater ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Staff Harbwr

Nododd bod y cyfan o'r staff tymhorol wedi gorffen am eleni. Tynnodd sylw'r pwyllgor at y ffaith i hanner y gyllideb ar gyfer swydd Harbwrfeistr Pwllheli gael ei ddileu fel arbediad yn ystod y dair blynedd diwethaf ac yn wyneb hynny gweithredir gyda llai o adnoddau staff yn yr harbwr.

Mewn perthynas â'r rhaglen waith, addawodd y swyddog anfon copi at aelodau'r pwyllgor yn ogystal â rhestr o'r cychwyr sydd wedi gadael yr angorfeydd yn yr Hafan.

Cyfeiriodd aelod at y cwmni diogelwch sy'n gweithio gyda'r nos yn yr Hafan a gofynnodd am wybodaeth am y gost. Mewn ymateb, hysbysodd y swyddog y bwriedir tendro'r gwaith hwn yn ystod y misoedd nesaf er ceisio cael gwell prisiau cystadleuol. Rhoddwyd ystyriaeth eisoes i gyflogi unai unigolyn neu gwmni i ymgymryd â'r gwaith a chanfyddwyd y byddai penodi cwmni ychydig yn rhatach na chyflogi unigolyn yn uniongyrchol i wneud y gwaith.

Diogelwch Offer Morol

Hysbysodd y swyddog bod yr heddlu'n awyddus i aildechrau'r Cynllun Gwarchod Morol oherwydd nifer y troseddau ac edrychir yn benodol ar Aberdyfi, Abersoch a Bae Pwllheli. Bwriedir gohebu â'r holl gwsmeriaid dechrau'r flwyddyn yn gofyn iddynt gofrestru â'r cynllun hwn.

Ymddiswyddiad

Nododd y Cadeirydd iddo dderbyn llythyr o ymddiswyddiad gan Mr John Morris a diolchodd iddo am ei wasanaeth i'r pwyllgor hwn tros y blynnydoedd.

6. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Nodwyd y cynhelir y cyfarfod nesaf ar 13 Mawrth 2012.

Dechreuodd y cyfarfod am 6.00pm a daeth i ben am 8:30pm